

Yr Eglwysi'n Gytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Yn rhifyn yr wythnos diwethaf o [Cenn@d](#) cafwyd adroddiad am yr oedfa a gynhaliwyd yn y pafiliwn ar fore Sul yr Eisteddfod. Dilynwyd yr oedfa y noson honno gan y Gymanfa Ganu flynyddol, a braf yw tystio i lond pafiliwn o ganu moliant. Diolch i Delyth Hopkins Evans am arwain y gymanfa mor effeithiol, gan greu naws addolgar a defosiynol. Bu i nifer a fu yno dystio i'r angerdd a'r llawenydd a deimlwyd yno, a hyn efallai'n adlewyrchu effaith y cyfnod clo wrth i'r canu a'r cymanfaoedd gael eu tewi dros dro. Cofiwch fod modd gwyllo'r oedfa a'r gymanfa ar S4Clic dros yr wythnosau nesaf hyn.

Bu Pabell yr Eglwysi o dan nawdd Cytûn yn llawn bwrlwm gydol yr wythnos, ac adroddir ychydig o'r hanes yn y lluniau a'r capsynau sy'n dilyn. Daeth dros 150 o wirfoddolwyr lleol i weithio ar y stondin yn ystod yr wythnos, ac fe hoffai Aled a Delyth Wyn Davies, a fu'n trefnu'r babell ar ran Cytûn, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a fu'n rhan o'r bwrlwm hwn.



Y babell wedi ei pharatoi yn barod ar gyfer agor bore Sadwrn. Diolch o galon am gymorth parod y llu o wirfoddolwyr o eglwysi lleol, ond yn fwyaf arbennig i Carwyn ac Alicia Arthur o Dregaron am roi wythnos gyfan i ni er mwyn gofalu am y babell.



Nos Fercher cafwyd cyfle i gynnal digwyddiad arbennig i ddiolch i'r Parch. Tom Defis o Gymorth Cristnogol am flynyddoedd o waith fel trefnydd y de-orllewin. Daeth llond pabell ynghyd – nifer wedi teithio cryn bellter er mwyn bod yno i ddiolch i Tom.



Bwrlwm y babell – bu prysurdeb rhyfeddol yn y babell gydol yr wythnos. Paratowyd 6,000 o baneidiau o de neu goffi, a rhanwyd 5,000 o deisennau cri. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Parch. Eifion Arthur Roberts am gludo'r teisennau cri i mewn atom bob dydd.



Yn rhan o lansiad y gyfrol *Malwan Bach fel fi ... yn cloddio am aur* gan Prydwen Elfed-Owens, dan gadeiryddiaeth John Roberts, *Bwrw Golwg*, holwyd Aled Davies, Beti-Wyn James, Alwyn Humphreys a Rhys Llwyd.



Braf fu croesawu Ifan Gruffydd atom i gynnal oedfa, a hynny yng nghwmni Carlo'r ci. Siaradodd am ddameg y ddfad golledig, gan bwysleisio bod Iesu yn caru ac yn gofalu am bob un ohonom. Diolch i'r dyrfa o blant a ddaeth i mewn atom i glywed y stori.



Daeth Gwilym Tudur a Gruffydd Rhys Davies atom un bore i gynnal oedfa, a hynny yn enw'r Gorlan Gristnogol. Buont ill dau'n gweithio'n ddyfal yn ystod yr wythnos yn sgwrsio ar y babell Gristnogol arall ar y maes, sef stondin y Mudiad Efynglaidd.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Yr Eglwysi'n Gytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol

(parhad o dudalen 1)



Cornel gweithgaredd y plant – braf fu cael cyfeillion o fudiad Plant Dewi yn gwirfoddoli gan drefnu amrywiaeth o grefftau a gweithgareddau ar gyfer y plant.



Braf fu cael cwmni tri llywydd enwadol ar y stondin yr un pryd, sef Evan Morgan, Llywydd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru; Betty Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a Densil Morgan, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Bu i'r tri dreulio amser ar y stondin yn ystod yr wythnos yn croesawu ymwelwyr i'r babell.



Traddodiad eisteddfodol blynyddol yw'r offeren o dan nawdd yr Eglwys Gatholig, a gynhaliwyd eleni yn Eglwys y Santes Fair yn Nhregaron.



Anne Uruska o'r Cylch Catholig yn arwain oedfa'r bore, gyda Delyth Wyn yn cyfeilio.



Dysgwr o California yw Phil Wyman. Erbyn hyn mae'n rhugl yn y Gymraeg ac yn genhadwr yng Nghaernarfon. Daeth i mewn atom un bore i rannu detholiad o ganeuon Cristnogol.



Tu allan i'r babell, dan nawdd Cymdeithas y Beibl, roedd yna ardd Feiblaidd, wedi ei hysbrydoli gan ardd o Sioe Flodau Chelsea. Trwy glicio ar ddolen i wefan ar eich ffôn, roedd modd gwrandao ar fyfyrdd pum munud yn esbonio ystyr ac arwyddocâd Salm 23.



Bob blwyddyn ceir detholiad da o lyfrau a lansio nifer o gyfrolau newydd. Un gyfrol a welodd olau dydd gan awdur o Geredigion oedd *Geiriadur y Gair*, sef geiriadur Beiblaidd newydd gan D. Geraint Lewis.

Er mai pabell o dan nawdd Cytûn yw hon, cofiwch mai'r enwadau sy'n perthyn i fudiad Cytûn sy'n berchen ar y babell a'r gwaith. Braf eleni oedd cael baner newydd yn nodi enwau'r 14 enwad sy'n ffurfio Cytûn, ynghyd â nifer o fudiadau ac asiantaethau Cristnogol.

Y Parchedig D. Haydn Thomas, BA 1932–2022

Pan fu farw'r Parchedig David Haydn Thomas ar 26 Mehefin yr oedd ei ben-blwydd yn 90 oed yn agosáu. Bu fyw felly drwy gymaint o ddatblygiadau pell eu cyrhaeddiad ag a welodd ein cymunedau a'n cenedl ni odid eioed. Daeth gwyddoniaeth a thechnoleg â bendithion a heriau lu. Daeth hiwmanistiaeth a seciwlariaeth a ffordd wahanol o feddwl a byw, gwerthoedd a blaenoriaethau newydd i'n pobl. Daeth y dylanwadau hyn, ynghyd â phresenoldeb cynyddol crefyddau eraill, i danseilio ysbrydoledd Gristnogol gynhenid y genedl. Ond, fel eraill o'i gyfoedion, ordeiniedig a lleyg, cadwodd Haydn y ffydd, ac ymdrechodd 'ymdrech deg' i'w chyhoeddi a'i byw.

Pentref glofaol y Betws, Rhydaman, ardal a chymuned glo carreg Sir Gâr, oedd ei gynefin – ei dad yn löwr a'r teulu'n aelodau yn y Capel Newydd. Bu H. R. Davies a T. J. Davies yn weinidogion yno yn eu tro, a'r Gymraeg a'r capel yn parhau'n rymus yn y gymdogaeth ac yn ddylanwadau ffurfiannol ar fywyd yr Haydn ifanc ac yn aros felly gydol ei oes.

Yr ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Ramadeg enwog Dyffryn Aman, a'i haddysgodd. Colegau Caerdydd a'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, a'i paratôdd ar gyfer ei ordeinio'n weinidog i Grist yn Salem, Aberystwyth, ym Medi 1956. Eglwysi Pumsaint, Cwm-twrch a Chwrtycadno (a Chaio, yn ddiweddarach) oedd ei faes cyntaf. Gogledd Penfro – y Tabernacl, Tyddewi, a Chaerfarchell – a'i denodd oddi yno yn 1961. Bu Doreen, merch o Lanarth, wrth ei ochr ac yn gefn iddo am 65 mlynedd; fe'u priodwyd ar 14 Mawrth 1957. Gyda dyfodiad Alison yn 1963, gwnaed y teulu'n gyfan.

Bu newid cyfeiriad yn 1965 pan benodwyd Haydn yn Swyddog Henoed Cymru, a thrachefn yn Gyfarwyddwr Cyngor Henoed Cymru. Gwnaeth waith arloesol ym maes gofal yr henoed, a daethom i'w adnabod fel 'Haydn Henoed'. Fe'i gwelwyd ar raglenni teledu a radio yn hyrwyddo buddiannau pensiynwyr a phobl oedranus; bu'n darlithio ar ei faes, yn trefnu presenoldeb y Cyngor ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn sefydlu pwyllgorau lleol drwy Gymru. Golygai'r swydd deithio ledled Cymru am dros 26 mlynedd. Bu'n gyfrifol am nifer o brosiectau sy'n parhau, megis Cymorth i Ddiodefwyr, Cynllun Rhyddhau o'r Ysbyty, yr Wythnos Henoed flynyddol, a



chyflwynodd raglen *Caniadaeth y Cysegr* yn gysylltiedig â hi. Bu ganddo fewnbwn i sefydlu Adran Geriatrig yn yr Ysgol Fedydol yng Nghaerdydd, yn ogystal â sefydlu cangen o Brifysgol y Drydedd Oes yng Nghymru. Fe'i hanrhydeddwyd â gwisg werdd Gorsedd y Beirdd yn 1999 am ei gyfraniad i fywyd Cymru.

Bugeiliol a gweinyddol oedd ei gyfraniad i Gyngor yr Henoed, ac nid ymadawodd â'r weinidogaeth oherwydd wedi ymaelodi yn Salem, Treganna, yn 1965 fe'i hetholwyd yn flaenor yno yn 1968. Bu'n fugail iddi mewn cyfnodau difugail rhwng 1967 ac 1969 a rhwng 1983 ac 1991, pryd y daeth yn weinidog llawnamser ar ofalaeth Salem, Penuel, a Holy Trinity, y Barri, ac yn ddiweddarach ar eglwys Bethel, Rhiwbeina, cyn ymddeol ar drothwy'r mileniwm newydd. Diogelodd Gymreictod yr eglwys hon, ac yn ei gyfnod ef gwelwyd dechrau'r twf ym mywyd yr eglwys gyda mewnlifiad o Gymry Cymraeg i'r rhan hon o'r ddinas.

Cynhaliodd gynhadledd undydd yn 1993 i ystyried cyfleoedd a heriau'r dyfodol, gan wneud defnydd o'r doniau amrywiol a ddaeth i fywyd yr eglwys. Dyma flynyddoedd sefydlu clybiau i blant ac ieuencid, nosweithiau 'Nawdd a Sêr' yn Salem i godi arian at achosion megis Cymorth Crstnogol, adfywiad yn yr ysgol Sul, ymweliadau blynyddol â Threfeca, cynnal astudiaethau Beiblaidd a Chymdeithas y Gadwyn. Wedi ymddeol, bu'n ffyddlon i gymdeithas Hamdden, Caerdydd.

Agorwyd drysau gwasanaeth i'r Cyfundeb pan etholwyd ef yn Ysgrifennydd Sasiwn y De yn 2004 ac yn Llywydd

iddi yn 2007. Dyrchafwyd ef i gadair y Gymanfa Gyffredinol yn 2008 a chafodd ei chynrychioli yn Nhairwan yn 2009. Adeg ei farw, ef oedd Llywydd Henaduriaeth Morgannwg Llundain, a hynny wedi iddo fod yn ysgrifennydd am naw mlynedd gan bontio'r hen drefn a'r newydd. Rhoes gyfraniad i'r Bwrdd Pensiynau ac i Banel Arolygu'r Swyddfa Ganolog. At hyn, bu'n bregethwr cyson ym mhulpuadau'r de. Cyflawnai'r swyddi hyn yn gydwybodol, fanwl gyda phwyslais ar yr ymarferol.

Rydyn ni heddiw'n coffáu ac yn diolch i Dduw am fywyd a gwasanaeth gŵr egniol, gweithgar a ffyddlon. Roedd y dirywiad crefyddol sydd yn y tir yn boendod ac yn bryder iddo, a cheisiodd ddwyn ei brofiad gweinyddol helaeth i lunio strategaethau fyddai'n cyfuno eglwysi ac yn cryfhau unedau lleol yn eglwysi hyfyw eu tystiolaeth. Nid pawb, wrth gwrs, a gefnogai'r weledigaeth honno! Ond daliodd ati, yn fyw ei feddwl ac yn frwd ei weledigaeth i'r diwedd.

I aelodau ei ofalaeth bu'n fugail gofalus, a phregethai'n gymeradwy â thinc cyfoes i'w neges. Roedd ysgytwad ei law yn groeso brwd i newydd-ddyfodiaid. Gosododd seiliau diogel i'r adfywiad a ddaeth i fywyd Salem, a chyfrannodd ef a Richard Hall Williams at ddiogelu hanes yr eglwys. Roedd yn ŵr pendant ei farn a chadarn ei argyhoeddiadau.

Profodd lawenydd yn y gwaith ac yn arbennig ym mywyd ei deulu, a'i ddilêit yn ei wyrion yn sgwrs edmygus ganddo – a'r ebost yn ei gysylltu â nhw lle bynnag yr oeddent yn y byd. Gwelodd ddyddiau blin, yn arbennig pan fu farw John, priod Alison, a thad James a Mathew, ac yn fwy diweddar golli ei frawd Eirwyn. Er yn fachgen bu gofid am ei iechyd, ond goresgynnodd y cyfan gan gynnwys cancr hyd ddechrau'r flwyddyn hon. Roedd yn ŵr o allu, ymroddiad ac egni, a chyfeiriwyd y rheini o'i ddyddiau cynnar yn y Betws i wasanaethu Iesu Grist, ei efengyl a'i eglwys.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys a diffuant gyda Doreen, Alison, James a Mathew, Nita ei chwaer a'r teulu oll yn eu galar

Ac yn awr, er pallu o'r corff wedi'r brwydro, y mae'n gorffwyso oddi wrth ei lafur yn nedwyddwch a llawenydd ein Harglwydd. I Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser.

Dafydd Andrew Jones

Sylw o'r Seidin 'ddim fel yr hafau a fu ...'

Bu llawer yn cymharu'r tymheredd eithafol eleni â thymheredd hafau poeth y 1970au. Gallaf innau dystio i sawl haf poeth yn ystod y 1970au, pryd y byddem yn mwynhau chwarae allan yn blant ar hyd y caeau gerllaw Cae Esgob a Mur Mawr. (Ond mwy am hynny y tro nesaf!)

Tannau'n ymledu

Wrth imi baratoi'r ysgrif hon i'r *Cenn@d*, mae 'pwys a gwres y dydd' hafau arferol wedi troi'n dymheredd y tu allan nas gwelwyd erioed cyn hyn. Rhyfedd oedd gweld y thermometr yn torri pob record flaenorol. Gwelwyd ar y newyddion danau dinistriol yn llarpio coedwigoedd, tiroedd a thai ar draws Ewrop gyfan. Yna, gwelsom danau tebyg yn gafael mewn rhostiroedd a chartrefi yng nglwedydd Prydain hefyd. Dim ond gwreichionyn oedd ei angen i gynnu'r tân ffyrnicaf a mwyaf dinistriol mewn cyfnod o hinsawdd poeth eithriadol. Na, nid haf cynnes cyffredin mo hwn.

Cynhesu yng ngwres diwylliant

Erbyn i chi ddarllen yr ysgrif hon bydd amryw ohonoch wedi'i throi hi tua'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ac wedi mwynhau eich ffics blynyddol o ddiwylliant a phethau gorau Cymru a'r Fro Gymraeg.

Doeddwn i ddim yno fy hunan eleni. Ond os byddwn wedi medru bod yno, fy niléit pennaf fyddai cael eistedd yn y Pafiliwn yn gwrando ar holl gystadlaethau'r bandiau pres. Pawb at y peth y bo, wrth gwrs. Ond dyna fyddai'n nefoedd imi!

Tân dieithr

Nefoedd i rai yng Ngheredigion oedd cael profi o rym a dylanwad ysbrydol yr Ysbryd Glân ar waith ym mro'r Eisteddfod 'slawer dydd.

Wrth chwilio yn archifau'r Llyfrgell Genedlaethol, cefais hyd i'r cofnod hwn yn *Baner ac Amserau Cymru* oedd yn dyddio o flwyddyn y diwygiad, 1904:

Gyda thristwch derbyniwyd y neges am golli'r Parch. Trefor Jones, Caernarfon, o'n plith. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Rhoda, ei briod, ac â Geraint Clwyd, ei fab, ynghyd â'r teulu ehangach. Cynhelir ei gynhebrwng ar 12 Awst. Ac wrth gydymdeimlo, diolchwn am ffyddlondeb ac am oes o wasanaeth i eglwys Iesu Grist.



Llun: UnSplash

TREGARON. TÂN Y DIWYGIAD YN YMLEDU

Y mae tân bendithiol y diwygiad crefyddol erbyn hyn wedi cyrhaedd rhai o eglwysi Canol-barth Ceredigion. Y mae cyfarfodydd wedi eu cynnal yng nghapeli Bwlchgwynt yn y dref hon bob nos am y pythefnos diweddf, ac y mae gwedd lewyrchus a chalonogol iawn arnynt. Yn y seiat a gynhaliwyd nos lau diweddf derbyniwyd deg yn aelodau o'r newydd, ac un ar ddeg i gyflawn aelodaeth. Yr oedd amryw wedi eu derbyn hefyd yr wythnos flaenorol. Newyddion tebyg sydd yn dyfod o Llanddewi Brefi, a Blaenpennal. Y mae yr eglwysi eraill o amgylch yn bwriadu cynnal cyfres o gyfarfodydd diwygiad yn y dyddiau nesaf yma, a thebyg y teimlir tipyn o wres yr Ysbryd trwy'r wlad yn gyffredinol yn ystod y gauaf yma. Yn yr eglwysi uchod ceir y gwagedd, y llanciau, a'r gwryfyn yn cymeryd rhan gyhoeddus gyda brwdfrydedd ysbrydol yn yr holl gyfarfodydd; ac y mae gweddnewidiad swynol i'w weled yn meddiannu pawb.

Testun: Asaph Glan Teifi (*Baner ac Amserau Cymru*, 7 Rhagfyr 1904)

Gobeithio ein bod ni i gyd wedi profi gweddnewidiad swynol ac ysbrydol wrth fwynhau'r wledd ddiwylliannol ac ysbrydol oedd wedi ei pharatoi ar eich cyfer.

Ond peidiwch â gwastraffu'ch anadl yn gweddio 'am ddiwygiad arall fel y diwygiadau a fu'. Nid fel yna y bu Duw'n gweithredu mewn oesoedd a fu, ac yn sicr ddigon nid yn y ffordd honno y bydd Duw yn gweithredu i'r dyfodol chwaith!

Cadwch yn effro, byddwch yn wyladwrs, a byddwch yn wych er mwyn Crist Iesu.

Yn ei emyn godidog ar yr 'Ysbryd Glân a'i Waith', fe ganodd y diweddar Dan Lynn James am yr Ysbryd fel un sy'n adnewyddu, yn bywiocáu, ac yn tangnefeddu wrth gynnig bywiol rym i'n cynorthwyo. Yn y pennill olaf mae'n gosod pethau fel a ganlyn:

Deued fflam yr adnewyddiad,
rhodded Gymru oll ar dân;
deuwn ato'n edfeiriol
ac fe droir ein gwarth yn gân:
dwyfol ias, nefol flas
ddaw drwy'r Ysbryd Glân a'i ras!

Hwyl i chi!

Jim Clarke



Y Silff Lyfrau




A History of the Bible: the Book and its Faiths, gan John Barton

Nid yn aml y dyddiau hyn yr ymddengys cyfrol yn trafod testunau Beiblaidd neu ddiwinyddol yn rhestrau'r llyfrau sy'n gwerthu orau yn y Deyrnas Unedig. Eithr dyna yw hanes y gyfrol dan drafodaeth y tro hwn. Mae ei hawdur, John Barton, eisoes wedi cyhoeddi nifer helaeth o gyfrolau'n trafod ffurfiant canon yr Ysgrifurau Cristnogol a dulliau diweddar o'u dosbarthu, eu dehongli a hefyd eu cyfieithu. Bu'n Athro ym maes Astudiaethau'r Hen Destament ym Mhrifysgol Rhydychen am dros ugain mlynedd, ac yn awr mae wedi llwyddo i grynhoi llawer o'i drafodaethau a'i argraffiadau o'r Beibl cyfan mewn cyfrol gynhwysfawr o dan y teitl: *A History of the Bible: The Book and Its Faiths* (ISBN: 978-0141978505; Penguin Books, clawr papur, 2020, xvii + 613 tudalen, £12.99).

Yn nwy ran gyntaf ei lyfr rhydd arolwg o gynnwys yr Hen Destament a'r Testament Newydd o safbwynt beirniadaeth fodern ohonynt, gan dynnu sylw arbennig at amrywiaeth y mathau o lenyddiaeth a geir ynddynt. Yn ddiau, bydd llawer o'r hyn a ddywed yn gyfarwydd i'r rhai ohonom a fu'n pori yn y meysydd hyn ar hyd y blynyddoedd. Ond byddwn ni hefyd nid yn unig yn cael ein hatgoffa o'r hyn a ddysgwyd gennym flynyddoedd yn ôl, ond yn ogystal yn profi gwefr wrth iddo gael ei gyflwyno inni mewn ffordd mor ffres a chyffrous. Yn sicr, mae llawer i'w drafod yn sgil darllen cyfrol mor gyfoethog â hon, ond cyfyngaf fy hun i ystyriaeth o dri mater yn unig. Yn gyntaf, lle'r Beibl yn ein dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol; yn ail, y gwahaniaeth sylfaenol rhwng ymdriniaethau Cristnogion ac Iddewon o'r Hen Destament; ac yn drydydd, y modd y mae cymunedau ffydd a diwinyddion wedi dehongli a chymhwysu'r hyn a ddeallent oedd dysgeidiaeth y Beibl i'w hoes a'u cyfnod.

Mae Barton yn dechrau drwy awgrymu nad crefydd yn gyfan gwbl seiliedig ar ysgrythur yw Cristnogaeth, ac yn hynny o beth mae'n wahanol i Islam, sy'n amlwg yn grefydd llyfr. Wrth gwrs, ceir nifer



fawr o Gristnogion ffundamentalaid, meddai, sy'n dwysbarchu Beibl nad yw'n bodoli mewn gwirionedd, sef testun perffaith sy'n adlewyrchu'n berffaith yr hyn y maent yn ei gredu. Nid cyfrol ddiwinyddol gynhwysfawr mohoni: er enghraifft, mae'r athrawiaeth am y Drindod bron yn llwyr absennol o'r Testament Newydd, ac, ar y llaw arall, ni chynhwyswyd dysgeidiaeth mor ganolog ag un Paul am gyfiawnhad drwy ffydd yng nghredoau'r Eglwys Fore. Gwelir hefyd fod gwahaniaethau sylweddol rhwng y mathau o weinidogaethau sy'n ymddangos ar dudalennau'r Testament Newydd a'r hyn a ddatblygodd yn y canrifoedd sy'n dilyn y cyfnod cynnar hwnnw yn hanes yr eglwys. Yn ogystal, camarweiniol yw honni, fel y gwnaethpwyd ar dudalennau *Cenn@d* rai wythnosau'n ôl, mai neges unol a geir yn holl lyfrau'r Beibl: mae honiad felly'n anwybyddu ac yn dibrisio'r amrywiaeth fawr a geir ynddynt, heb sôn am y cannoedd o flynyddoedd sy'n aml yn eu gwahanu oddi wrth ei gilydd o ran eu cyfansoddi.

Gan gofio mai bwriad y gyfrol dan sylw yw trafod y ffyrdd y mae dwy grefydd, Iddewiaeth a Christnogaeth, yn dehongli'r ysgrythur, dangosir mor wahanol yw canlyniadau'r dehongliadau hynny. Bu gogwydd Cristnogaeth tuag at geisio canfod ystyr diwinyddol yn

llyfrau'r Hen Destament oddi mewn i fframwaith sy'n dechrau â'r weithred o greu a ddilynir gan gwmp, ac yn a adferiad wrth gynnig gwaredigaeth i ddynolryw.

Mewn gwrthgyferbyniad, llawer iawn mwy tameidiog yw dehongliadau'r Iddewon, gyda thuedd yn aml i hoelio sylw ar un adnod neu gymal yn unig. Cofiaf yn dda am bapur gan rabi Iddewig mewn cynhadledd ar yr Hen Destament yn traethu ar y testun 'Rabiniaeth a'r Hen Destament' ac yn ei gyfyngu ei hun i drafod un cymal yn unig o lyfr y proffwyd Jeremeia. Yn nhraddodiad esboniadol y Rabiniaid, ceisir darganfod sut mae'r hanesion yn yr ysgrythur yn dysgu i'r Iddewon ufudd-dod i'r Gyfraith yn hytrach na'u bod yn egluro ffordd iachawdwriaeth fel y cyfryw. Rhaid cofio hefyd mai llyfrau'r Beibl Hebraeg yn unig a ystyrir yn ysgrythur gan Iddewon a'r rhai hyn, wrth gwrs, a gymeradwywyd gan Martin Luther a'r Diwygwyr Protestannaidd hefyd. Ar y llaw arall, ceir digon o dystiolaeth fod llyfrau a gynhwysir o dan y pennawd 'Apocryffa' hefyd yn 'ysgrythur' i aelodau'r Eglwys Fore, ac fe'u hystyrir felly o hyd gan nifer fawr o ganghennau'r eglwys, megis y Pabyddion a'r Unionged. Nodwn hefyd i'r Esgob William Morgan eu cynnwys yn ei gyfieithiad yn 1588.

Olrheinir y modd y trawsfurfiwyd dehongli'r ysgrythurau ar draws y cenedlaethau, o alegoreiddio cyfnod y Tadau Eglwysig a'r Canoloesoedd hyd at ymdriniaethau mwy uniongyrchol a dadansoddol y Diwygwyr a chyfnod yr Oleuedigaeth, a'r cyfan mewn ymdrech i ddarganfod eu hystyr ar gyfer pob cyfnod ac amgylchiad. Eto, rhaid inni bob amser fod yn wylriadwus rhag inni ddarllen i mewn i'r Beibl yr hyn yr ydym am ei weld ynddo.

Mae gan yr awdur hwn arddull hynod ddarllenadwy a llwydda'n anghyffredin i gyflwyno'i fater mewn ffordd ddeniadol a gafaelgar. Campwaith yn wir: mae gwledd yn aros y sawl sydd am bori yn y gyfrol.

John Tudno Williams

O'r Beibl: 11

Y Gwynfydau (4)

'Gwyn eu byd y rhai addfwyn,
oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.'
(Mathew 5:5)

Yn yr adnod uchod mae Iesu'n dweud bod y rhai addfwyn yn 'wyn eu byd'. Ond beth mae bod yn 'addfwyn' yn ei olygu?

Os trown at ein geiriaduron Cymraeg, mae 'addfwyn' yn golygu 'tyner' a 'gostyngedig'. Yn Saesneg, mae'r gair 'addfwyn' yn cael ei gyfieithu fel 'meek': 'Blessed are the meek for they will inherit the earth'.

Ond nid troi at ein geiriaduron sydd orau i ddeall beth yw ystyr 'addfwyn', ond at y Beibl ei hun. Wedi'r cyfan, mae gan eiriau'r Beibl ystyr feiblaidd. Dehonglydd gorau'r Beibl yw'r Beibl ei hun. Peth peryglus yw darllen yr hyn yr ydym ei eisiau i mewn i eiriau'r Beibl. Y cwestiwn i'w ofyn yw: nid beth yr ydym ni'n ei feddwl yw ystyr 'addfwyn', ond beth mae'r Beibl yn ei olygu wrth ddefnyddio'r gair hwn?

Wrth ddweud 'gwyn eu byd y rhai addfwyn', mae Iesu'n aralleirio darn o'r Hen Destament. Er mwyn deall beth yw ystyr 'addfwyn', mae'n rhaid troi at y darn hwn o'r Beibl, sef Salm 37:10-11:

Ymhen ychydig eto, ni fydd y drygionus;
er iti edrych yn ddyfal am ei le, ni fydd ar gael.

Ond bydd y gostyngedig yn meddiannu'r tir
ac yn mwynhau heddwch llawn.

'Addfwyn'

Yn adnod 11, gall y gair 'gostyngedig' hefyd gael ei gyfieithu fel 'addfwyn': 'Ond bydd y rhai addfwyn yn meddiannu'r tir'. Ydy hyn yn ein hatgoffa o rywbeth? 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear'.

Ond pwy yw'r rhai 'addfwyn' yn y salm hon? Wel, awdur y salm yw'r Brenin Dafydd. Ysgrifennodd Dafydd y salm hon mewn



cyfnod anodd yn ei fywyd pan oedd yn gweld llawer o bobl ddrygionus yn llwyddo o'i gwmpas. Neges y salm ydy y dylai pobl Dduw ddibynnu ar yr Arglydd yn hytrach nag edrych ar lwyddiant y drygionus.

Wrth weld y bobl annuwiol yn llwyddo, buasai Dafydd wedi gallu ymateb drwy bryderu a chynhyrfu am ei sefyllfa, drwy fod yn falch ynddo'i hun a cheisio dinistrio'r drygionus. Ond yn Salm 37 nid yw Dafydd yn gwneud hynny. Yn hytrach, mae'n dibynnu'n ostyngedig ar Dduw.

Dyma sut rai yw'r bobl 'addfwyn' yn Salm 37 a Mathew 5:5. Pobl nad ydynt yn cynhyrfu o weld yr annuwiol yn llwyddo. Pobl nad ydynt yn falch a haerllug eu hagwedd, ond sy'n dibynnu'n ostyngedig a gwylaidd ar Dduw ym mhob sefyllfa.

Wrth gwrs, gwelwn yr addfwynder hwn ar ei amlycaf yn Iesu. Fe yw'r person addfwynaf. Yn wir, dywedodd Iesu: 'Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon' (Mathew 11:29). Wrth i Iesu weld y

drygionus yn llwyddo o'i gwmpas, nid oedd yn haerllug a balch. Ni chafodd ei lethu gan bryder a chynnwrf, ond ymddiriedodd yn ostyngedig yn ei Dad – hyd yn oed wrth iddo gael ei hoelio ar groes gan y drygionus a marw dros eu pechodau nhw!

Ar ôl sôn fod y rhai 'addfwyn' yn 'wyn eu byd', mae Iesu'n dweud mai'r bobl yma fydd yn 'etifeddu'r ddaear'. Nid dweud mae Iesu fod y rhai addfwyn yn mynd i etifeddu darn llythrennol o dir, ond dweud fod ganddynt le yn Nheyrnas Dduw. Yna, ar ddiwedd amser, pan fydd Iesu'n sefydlu'r Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd, bydd yr 'addfwyn' yn cael bod yno gydag fe.

Cymhwysu

Beth am gymhwysu'r gwirioneddau hyn? Mae'r 'rhai addfwyn', wrth gwrs, yn cyfeirio at bob un Cristion. Mae pob Cristion i fod yn 'addfwyn'.

Pan welwn y drygionus yn llwyddo yn y byd sydd o'n cwmpas, nid oes yn rhaid i ni gael ein llenwi â chynnwrf. Nid oes yn rhaid i ni ymateb gyda chenfigen, eiddigedd ac atgasedd. Yn hytrach, gallwn fod yn 'addfwyn'; gallwn ddibynnu yn ostyngedig ar ein Duw dibynadwy a chyfiawn. Y Duw fydd – yn y pen draw – yn delio â'r drygionus yn ôl ei gyfiawnder perffaith.

Cwestiynau

- Beth yw bod yn 'addfwyn' yn ôl syniadau'r byd heddiw?
- Sut mae Salm 37 yn ein helpu i ddeall beth yw ystyr bod yn 'addfwyn'?
- Sut gallwn ni fel Cristnogion dyfu mewn addfwynder?

Gwilym Tudur



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 14 Awst, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfraniad archdderwyddon i'n hemynyddiaeth – rhaglen 3. Christine James sy'n trafod cyfraniad ein harchdderwyddon i'n hemynyddiaeth.

Sul, 14 Awst, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Arfon Jones, Caerdydd

Cymorth Cristnogol yn ennill gwobr am y babell elusennol orau

Enillwyr gwobr Sefydliad y Merched am y babell elusennol orau ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Tregaron eleni oedd Cymorth Cristnogol. Thema'r babell oedd 'Tyfu Bwyd' ac roedd yn dangos yr her fawr i dyfu bwyd yn rhai o wledydd tlotaf y byd oherwydd yr argyfwng hinsawdd. Cyplyswyd y thema ag [apêl](#) frys ddiweddaraf Cymorth Cristnogol, Apêl Argyfwng Newyn Dwyrain Affrica.

Bu'r tîm i gyd yn gyfrifol mewn gwahanol ffyrdd am greu'r arddangosfa, ond Nathan Munday oedd y meddwl y tu ôl i'r cwbl.

Llun: Llinos Roberts, Nathan Munday, Tom Defis yn dal y wobwr, a Nan Wyn Powell-Davies



Dathlu yn Shillong

Dathlu canmlwyddiant Ysbyty Dr R Gordon Roberts, Shillong

Tybed beth mae'r flwyddyn 2022 yn ei olygu i chi? Canmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru, eich pen-blwydd arbennig chi neu aelod o'r teulu, neu ryw ddiwyddiad arall? Wel, mae 2022 yn flwyddyn bwysig yn hanes ysbyty yn Shillong, talaith Megalaya yng ngogledd-ddwyrain India, oherwydd ganrif yn ôl, ar 25 Mawrth 1922, agorwyd Ysbyty Genhadol Gymreig Bryniau Casia.

Fe'ch cyfeiriaf at ddwy gyfrol werthfawr sy'n adrodd hanes cyfraniad gwerthfawr cenhadon o Gymru, dan nawdd Eglwys Bresbyteraidd Cymru neu'r Methodistiaid Calfinaidd. Y gyfrol gyntaf yw eiddo'r Parchedig Ddr D. Ben Rees, *The Healer of Shillong*, a gyhoeddwyd yn 2016. Yn y gyfrol hon, cofnodir holl ymdrechion y Parchedig Ddr H. Gordon Roberts, hyd at ei ymddeoliad yn 1942. Dilynwyd ef gan Dr Arthur Hughes a'i briod, Nancy Hughes.

Ym mis Chwefror 1914 croesawyd Dr a Mrs Gordon Roberts yn swyddogol i'r ardal. Tua'r un adeg roedd yr awdurdodau lleol wedi cytuno ar safle ar gyfer ysbyty newydd, ac yn fuan iawn ar ôl i Dr Roberts gyrraedd cyflwynwyd cynllun am ysbyty newydd, a dechreuwyd ei adeiladu yn 1915. Am nifer o flynyddoedd cleifion allanol oedd yn cael triniaeth yno, gyda Miss Margaret Buckley, chwaer nyrso o dde Cymru, yn ysgwyddo'r baich hwnnw yn ogystal â hyfforddi merched i fod yn weinyddesau proffesiynol. Agorwyd yr ysbyty yn swyddogol ar 25 Mawrth 1922.

Ar dudalen flaen y rhaglen nodwyd, 'Prif Swyddog Meddygol – Dr H Gordon Roberts. Chwaer yng Ngofal – Miss M E Buckley'.

Cytunodd Ei Ardderchowgrwydd Syr William Marris, aelod o Wasanaeth Sifil Prydain yng nghyfnod y Raj, i agor yr ysbyty newydd. Arwyddair yr ysbyty yw 'Iacháu, dysgu, a phregethu yn Ei Enw Ef'.

Yng Nghymanfa Gyffredinol 2014 croesawyd Dr David Tariang, Prif Swyddog Meddygol yr ysbyty ar y pryd, i Gymru. Amlinellodd Dr Tariang y bwriad i dathlu canmlwyddiant yr ysbyty, ac yn dilyn ei anerchiad lanswyd 'Apêl y Llywydd' gyda'r bwriad o gefnogi'r prosiect. Dros y ddwy flynedd nesaf cyfrannodd aelodau ac eglwysi EBC £115,000 tuag at yr apêl.

Ar 25 Medi 2021 agorwyd bloc coleg nyrso newydd yn yr ysbyty; roedd y Parchedig Evan Morgan, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ymysg eraill yn bresennol yn rhithiol. Nodir cyfraniad Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y ddau blac. Hyfrydwch i mi yn bersonol oedd gweld y datblygiad a dderbyniodd gefnogaeth mor arbennig gan aelodau EBC yn dod i fwcwl.

Bellach, er nad oes gennym genhadon yng ngogledd-ddwyrain India, mae gan



Darlun mewn pwyth, print a thecstil o Ysbyty Gordon Roberts yn Shillong gan yr artist Cefyn Burgess

y trigolion yr awydd a'r brwdfrydedd i anrhydeddu cyfraniad cenhadon o Gymru o 1840 hyd at chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Gwn o brofiad am y cariad sydd gan drigolion Shillong, o'r ieuengaf hyd yr hynaf, tuag at yr hyn a elwir ganddynt yn Fam Eglwys, am roi iddynt Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist.

Gwefr yn wir yw clywed cynulleidfa'n canu, yn yr iaith Casi:

Diolch i ti, yr Hollalluog Dduw,
am yr Efengyl sanctaidd.
Halelwia! Amen.

Pan oeddem ni mewn carchar tywyll, du
rhoist in oleuni nefol.
Halelwia! Amen.

O aed, O aed yr hyfryd wawr ar led,
goleued ddaear lydan!
Halelwia! Amen.


Byddwch yn gyfarwydd â gwaith yr artist Cefyn Burgess, sy'n enwog am eu ddelweddau o gapeli mewn tectiliau. Roedd arddangosfa o'i waith, 'Tu Ôl i'r Blwch', yn Oriel Storiell, Bangor, hyd at 2 Gorffennaf. Casgliad oedd hwn o'i waith yn dilyn ei ymweliadau i astudio'r ardal,

rhan o brosiect i ddarganfod y cysylltiadau rhwng Cymru a phobl Khasi a Mizo gogledd-ddwyrain India. Mae'n cynnwys nifer o luniau o Shillong, yn eu plith y delwedd o Ysbyty Dr Gordon Roberts. Os cewch gyfle i'w gweld mewn man arall, ni chewch eich siomi.

Yn ogystal â'r gyfrol uchod byddai'n werth darllen cyfrol y Parchedig Ednyfed Thomas, *Bryniau'r Glaw*, hanes Cenhadaeth Dramor Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar Fryniau Casia. Mae'r gyfrol yn un o dair sy'n adrodd hanes Cenhadaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng ngogledd-ddwyrain India o 1840 ymlaen. Rhan bwysig o'r genhadaeth oedd sefydlu gwasanaeth iechyd i bawb.

Trefor Lewis
Hen Golwyn

(Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, 2013–14)



Cymorth Cristnogol yn ymateb i argyfwng llifogydd yn Bangladesh



Yn dilyn llifogydd drwg yng ngogledd-ddwyrain Bangladesh, mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn helpu 1,700 o bobl mwyaf bregus y rhanbarth, trwy ei bartneriaid FIVDB (Friends in Village Development Bangladesh) a DSK (Dushta Shasthya Kendra). Gyda chymorth ariannol Llywodraeth Prydain a'r Iseldiroedd, mae'r partneriaid wedi bod yn rhoi cymorth drwy arian parod, citiau hylendid, addysg am warchod rhag Covid, a bwyd ar gyfer da byw. Bydd y cymorth hwn yn eu galluogi i croesi yn wyneb heriau'r argyfwng.



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Darllen yr arwyddion

Emyn 235: 'Dyrchafer enw Iesu cu'

Darllen Salm 82 neu gellir canu *Salmau Cân Newydd*: <https://www.bible.com/bible/1364/PSA.82.SCN>

Gwedd

Dduw Dad, Greawdwr, yr hwn a anfonast dy Fab Iesu Grist i fod yn Waredwr y byd, anfon dy Ysbryd Glân i'n plith fel y medrwn ddewis Iesu 'a'i farwol glwy' / yn Frawd a Phriod imi mwy; / ef yn Arweinydd, ef yn Ben'. Cadw ni rhag edrych ac edrych, a dal i fethu gweld dy ogoniant grasol. Tywys ni at ryfeddod dy Fab. Amen.

Darllen Luc 12:49-56 – Rhaniadau a rhagrith

Byth a beunydd, rydym yn chwilio am batrymau arwyddocaol, neu'n chwilio am arwyddion y medrwn eu defnyddio i wneud synnwyr o'n hamgylchiadau. Bydd rhai'n chwilio am arwyddocâd yn y llinellau sydd ar gledr eu llaw, ac eraill yn chwilio ym mhatrymau'r sêr am gyfarwyddyd.

Darogan

Bydd rhaglenni newyddion yn treulio lawn cymaint o amser yn ceisio egluro arwyddocâd rhyw ddigwyddiad ag a wnânt yn dweud wrthym am y digwyddiad. Ac nid yw hynny'n ddigon chwaith, oherwydd try'r 'adroddiad' yn ddyfalu beth fydd yn digwydd nesaf. Gwahoddir pobl gyffredin, y *vox pops*, ac arbenigwyr o bob cwr o'r byd, i gynnig eu dadansoddiadau o bwysigrwydd y digwyddiad o dan sylw.

Gwireddu disgwyliadau?

Bob dydd byddwn yn chwilio am gyfarwyddyd am y tywydd gan arbenigwyr dewinol eu dawn sy'n archwilio siartiau o bob math i ddarogan beth a ddaw i'n rhan. Ym mhob ardal, bron, bydd dywediadau a choelion a rhyw arwyddion i chwilio amdanynt i'n rhybuddio am y tywydd i ddod. Os ceir awyr goch gyda'r hwyr bydd hi'n braf yfory, meddir. Yn Aberystwyth clywais sawl un yn dweud rhywbeth tebyg i hyn: 'Os gallwch chi weld Pen Llŷn yn glir, mae glaw ar y ffordd. Ac os na allwch chi weld Pen Llŷn, mae'r glaw wedi cyrraedd!'

Rhaniadau

Condemniad Iesu o'i wrandawyr yw eu bod naill ai'n methu gweld, neu eu bod, drwy ddewis a bwriad, yn gwrthod deall arwyddocâd yr hyn a welsant â'u llygaid eu hunain.

Gwelsom cyn hyn yn Efengyl Luc fod Iesu yn mynnu: 'os trwy fys Duw yr wyf fi'n bwrw allan gythreuliaid, yna y mae teyrnas Dduw wedi cyrraedd atoch' (11:20). Rhaid oedd dewis ochr, meddai. Dewis gwrthwynebu Iesu a'i ddysgeidiaeth anghyfforddus a chwyldroadol a wnaeth y sefydliad crefyddol a seciwlar. Yn wir, 'dechreuodd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid fagu dig tuag ato, a'i holi yn fanwl ynghylch llawer o bethau, gan aros fel helwyr i'w faglu ar ryw air o'i enau' (11:53-4).

Dewis

Mynnai Iesu na allai unrhyw un aros ar y ffens am arwyddocâd ei haeriadau.

Mynnodd Elias yn ei ddydd nad oedd gan y genedl ddewis. Rhaid oedd penderfynu pwy i'w wasanaethu: ai'r Arglwydd neu Baal (1 Brenhinoedd 18:21)? Yn yr un modd, a'r Arglwydd ei hun yn sefyll yn eu plith, roedd rheidrwydd ar bob un i ddewis a oeddynt yn arddel Iesu fel Mab y Dyn neu'n ei wrthod? Rhaid oedd dewis ei ganlyn ar un waith; rhaid oedd codi'r groes yn ddyddiol i'w ganlyn fel deiliaid ei deyrnas. Roedd i'r penderfyniadau a wnaed effeithiau pellgyrhaeddol: 'Rwy'n dweud wrthyhch,' meddai, 'pwy bynnag a'm harddel i gerbron eraill, bydd Mab y Dyn hefyd yn eu harddel hwy gerbron angylion Duw; ond y sawl sydd yn fy ngwadu i gerbron eraill, fe'i gwedir ef gerbron angylion Duw.' (12:8-9)

Daeth ef, yr un y dywedwyd amdano ei fod yn bedyddio â'r Ysbryd Glân ac a thân, gan ryddhau gallu Duw fel tân oedd yn puro ar y ddaear. Dyma Iesu, yr un a ddywedodd y byddai ymhen ychydig amser wedi'r 'bedydd' tanllyd oedd yn ei aros, yn tywallt yr Ysbryd Glân ar ei bobl.

Gwahanu

Nid tywysog tangnefedd ein gobeithion daearol mo Iesu. Roedd ef, Mab y Dyn, y Meistr, wedi dod i gyhoeddi ei deyrnasiad. Rhaid oedd dewis sut i ymateb i'w ymddangosiad a pharatoi ar gyfer cyflawniad bwriadau'r Meistr drwy ei wasanaethu'n ffyddlon a disgwyl cyflawniad ei deyrnas.

Ni chroesawyd ef gan bawb. Nid oedd unrhyw beth newydd am hyn. Onid oedd y proffwydi yn eu tro wedi profi gwrthwynebiad i'w geiriau? Oni rybuddiodd Micha ganrifoedd o flaen llaw y byddai ymrannu ffyrnig yn nodweddu ymateb cymdeithas lwgr i ddyfodiad

'Duw fy iachawdwriaeth' (Micha 7:1-7)? Oni welodd Micha y byddai'n rhaid i bob un ddewis pwy i'w wasanaethu a phwy i ymddiried ynddo? 'Oherwydd y mae'r mab yn amharchu ei dad, y ferch yn gwrthryfela yn erbyn ei mam, y ferch-yng-nghyfraith yn erbyn ei mam-yng-nghyfraith; a gelynyon rhywun yw ei dylwyth ei hun. Ond edrychaf fi at yr ARGLWYDD, disgwyliaf wrth Dduw fy iachawdwriaeth; gwrendy fy Nuw arnaf.'

Ganrifoedd yn ddiweddarach wrth i Iesu gael ei gyflwyno yn y deml, mynnodd Simeon y byddai Iesu yn 'ogoniant' i'w bobl ac yn 'ddatguddiad i'r cenedloedd', yn dwyn bendith i'r byd. Ond byddai hefyd yn 'gwmp a chyfodiad llawer yn Israel ... yn arwydd a wrthwynebir'. Byddai'r wybodaeth amdano'n trywanu hyd yn oed enaid Mair ei fam. Ond, 'felly y datguddir meddyliau calonnau lawer' (Luc 2:34-5).

Darllen yr amserau

Datguddir yr hyn sy'n guddiedig yn ein calonnau yn ein hymateb i Iesu ei hun. Rhyfeddodd Iesu fod pobl oedd yn medru darllen arwyddion 'naturiol' y tywydd yn dewis peidio â darllen arwyddocâd arwyddion yr amserau a chael eu cyfarwyddo ganddynt. Dewis peidio â gweld a wnaethant, peidio â deall a pheidiodd darllen arwyddocâd yr arwyddion a welsant, na'r ddysgeidiaeth a glywsant. 'Rhagrithwyr' oeddynt, a'u bryd ar sioe allanol o grefydd yn hytrach na chroesawu'r Arglwydd ar ei ddyfodiad.

A heddiw?

Hyd heddiw mae Iesu, yr haeriadau a wnaed ganddo ac a gyhoeddir gan ei ddilynwyr ym mhob cwr o'r byd, yn creu rhaniadau ac yn ennyn gwrthwynebiad a dichter. Nid digon yw cydsynio â dysgeidiaeth Iesu pan gytunwn ag ef a hepgor beth sy'n dramgwyddus i ni. Nid digon chwaith yw cytuno â rhaglen waith arbennig, er cystal ydyw. Da y dywedodd Lesslie Newbiggin: 'Bydd neges am y deyrnas, pan gaiff ei hysgaru oddi wrth berson Iesu, yn rhaglen neu'n ideoleg, ond nid yw'n efengyl.'

Gwedd

Dduw byw a chyfrannwr pob bendithion, rydym yn dewis ymostwng i awdurdod, arglwyddiaeth a grym adnewyddol Mab y Dyn, Iesu Grist ein Harglwydd. Cyffeswn nad ydym yn deall lawn arwyddocâd geiriau o'r fath. Ond, Arglwydd, ein dyhead yw cael adnabod, arddel a gwasanaethu dy ogoniant, er mor ffaeledig ydym, bob dydd o'n hoes. Amen.

Emyn 516: 'Iesu ei hunan yw fy mywyd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)